**CYNGOR SIR FYNWY**

**Cofnodion y cyfarfod o Bwyllgor Dethol Plant a Phobl Ifanc a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Neuadd y Sir, Yr Rhadyr, Brynbuga, NP15 1GA ar Dydd Iau, 12 Ionawr, 2017 am 2.00 pm**

**MYNYCHWYR:** Y Cynghorydd Sir P. Jones (Cadeirydd)
Y Cynghorydd Sir P. Farley (Is-gadeirydd)
Cynghorwyr Sir: D. Blakebrough, P. Clarke, R. Harris, D. Jones and M. Powell.

**Aelodau Ychwanegwyd:**

**Aelodau'n pleidleisio ar faterion addysg yn unig:**

Mr. M. Fowler (Cynrychiolydd Rhiant Lywodraethwyr)

**Nad ydynt yn pleidleisio:**

Mr. K. Plow (Cymdeithas Llywodraethwyr Ysgolion)

**SWYDDOGION YN BRESENNOL:**

| | |
|---|---|
| Will Mclean | Head of Democracy, Engagement and Improvement |
| Joy Robson | Head of Finance/Section 151 Officer |
| Mark Howcroft | Assistant Head of Finance |
| Jane Rodgers | Safeguarding Service Manager |
| Nikki Wellington | Finance Manager |
| Tyrone Stokes | Accountant |
| Hazel Ilett | Scrutiny Manager |
| Richard Williams | Democratic Services Officer |

**YMDDIHEURIADAU:**

Cynghorwyr Sir L. Guppy, M. Hickman and E. Hacket Pain

1. **Datganiadau o Fuddiant.**

Ni wnaed unrhyw ddatganiadau o fuddiant gan yr Aelodau.

2. **Fforwm Agored i'r Cyhoedd.**

Nid oedd unrhyw aelodau o’r cyhoedd yn bresennol.

3. **Cadarnhau cofnodion y cyfarfod blaenorol.**

Cadarnhawyd cofnodion cyfarfod Pwyllgor Dethol Plant a Phobl Ifanc dyddiedig 8fed Rhagfyr 2016 ac fe’u llofnodwyd gan y Cadeirydd.

**CYNGOR SIR FYNWY**

**Cofnodion y cyfarfod o Bwyllgor Dethol Plant a Phobl Ifanc a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Neuadd y Sir, Yr Rhadyr, Brynbuga, NP15 1GA ar Dydd Iau, 12 Ionawr, 2017 am 2.00 pm**

4. **Drafft Gynigion Cyllideb Gyfalaf 2017/18 i 2020/21.**

## Cyd-destun:

Craffu'r gyllideb gyfalaf arfaethedig ar gyfer 2017/18 a'r cyllidebau cyfalaf dangosol ar gyfer y tair blynedd 2018/19 i 2020/21.

## Materion Allweddol:

### Materion yn ymwneud â'r Cynllun Cyfalaf Ariannol Tymor Canolig (CATC):

- Adolygir y rhaglen gyfalaf bedair blynedd yn flynyddol a chaiff ei diweddaru i gymryd i ystyriaeth unrhyw wybodaeth newydd sy'n berthnasol.

- Prif gydran y CATC cyfalaf ar gyfer yr ychydig flynyddoedd i ddod yw Rhaglen Ysgolion y Dyfodol. Mae'r Cyngor yn ddiweddar wedi cymeradwyo cyllid pellach ar gyfer y rhaglen hon yn ei gyfarfod ar yr 20fed Hydref 2016.

- Mae nifer o feysydd eraill lle mae ymrwymiad i fuddsoddi. Fodd bynnag, mae'r cynlluniau ar hyn o bryd yn gorwedd y tu allan i'r rhaglen waith fel mae'r gwaith yn mynd rhagddo i glustnodi'r gofynion cyllido. Y rhain yw:

  - Pwll Trefynwy - ymrwymiad i ail-ddarparu'r pwll yn Nhrefynwy o ganlyniad i Raglen Ysgolion y Dyfodol.

  - Hyb Y Fenni - ymrwymiad i ail-ddarparu'r llyfrgell gyda'r Siop Un Stop yn Y Fenni i gwblhau creu hyb ym mhob un o'r trefi.

  - Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl – mae'r galw am grantiau ar hyn o bryd yn llawer mwy na'r gyllideb. Mae gwaith yn cael ei gyflawni i asesu lefel y buddsoddiad sydd ei angen i fwyafu'r effaith a'r budd i'r rheiny sy'n derbyn y grantiau.

  - Y Fargen Ddinesig - Mae 10 Awdurdod ym Mhrifddinas-Ranbarth Caerdydd â'u golygon ar Fargen Ddinesig bosib o £1.2 biliwn. Ceisir cytundeb ar draws y rhanbarth i ymrwymo i'r rhaglen hon yn Ionawr 2017 ac felly byddai'n effeithio ar y CATC. Modelir yr effaith bosib ar gyllidebau awdurdodau unigol ar y blaen i benderfyniadau ar brosiectau a phroffiliau penodol er mwyn i awdurdodau ddechrau meddwl am yr ymrwymiad yn eu CATCiau..

  - Bloc J ac E – Mae rhaglen resymoli'r swyddfa'n cael ei hystyried i weld a oes ateb a fyddai'n galluogi safleoedd Magwyr a Brynbuga i gael eu hatgyfnerthu, gan ryddhau cyllid i dalu am y buddsoddiad angenrheidiol i ddod â'r blociau nôl i'w defnyddio.

- Datblygir strategaeth sy'n galluogi'r rhaglen graidd, Ysgolion y Dyfodol a'r cynlluniau uchod i gael eu cytuno. Er gwaethaf hyn, deil cryn dipyn o bwysau sy'n gorwedd y tu allan i unrhyw bosibilrwydd i'w cyllido o fewn Cyfalaf CATC ac mae risg sylweddol ynghlwm wrth hyn. Mae'r Cabinet wedi derbyn y risg hon yn flaenorol.

- Y polisi presennol yw y gellir ychwanegu cynlluniau newydd pellach at y rhaglen hon yn unig os yw'r achos busnes yn dangos eu bod yn hunan-gyllidol neu'r ymddengys bod y cynllun yn flaenoriaeth uwch na chynlluniau cyfredol yn y rhaglen ac felly'n eu disodli.

- Yn gryno, nodwyd y materion a'r pwysau canlynol eraill:

  - Rhestr hir o bwysau wrth gefn – isadeiledd, eiddo, gwaith Deddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd, Hawliau Tramwy Cyhoeddus, fel yr amlinellir yn Atodiad 1 o'r adroddiad. Ni chynhwysir un rhyw rai o'r pwysau hyn yng Nghynlluniau Ariannol Tymor Canolig y cyfalaf cyfredol, ond mae hyn yn dwyn risg sylweddol gydag ef.

  - Angen buddsoddiad cyfalaf i gyflawni arbedion refeniw – mae hyn yn bennaf ym maes swyddfeydd ac edrych ar ffyrdd eraill o ddiwallu'r angen ar gyfer hamdden a diwylliant, gofal cymdeithasol, buddsoddi eiddo ac o bosib Anghenion Addysgol Ychwanegol. Ar hyn o bryd asesir y lefel o fuddsoddiad. Fodd bynnag, yn unol â'r egwyddor a sefydlwyd eisoes, os nad yw'r cynlluniau'n mynd i ddisodli unrhyw beth sydd eisoes yn y rhaglen yna bydd angen i gost unrhyw fenthyciad ychwanegol gael ei thynnu o'r arbedion i'w gwneud.

  - Mae cronfa wrth gefn TG wedi prinhau felly mae'r cyllid ar gyfer unrhyw fuddsoddiad mewn TG yn gyfyngedig. Bydd angen i unrhyw gynlluniau TG ychwanegol naill ai fedru talu drostynt eu hunain neu ddisodli cynlluniau eraill yn y rhaglen.

  - Cylchffordd Cymru – mae'r Awdurdod wedi ymgymryd â gwaith diwydrwydd dyladwy ar fersiwn o'r cynnig a ddaeth i'r casgliad i beidio â mynd rhagddo, mae'r cynnig presennol yn cael ei ystyried gan Lywodraeth Cymru heb fynd ar ofyn cyllid gan yr Awdurdod Lleol.

**<u>Craffu Aelodau:</u>**

- Mae'r rhaglen ar gyfer Ysgolion yr 21ain Ganrif yn cyfeirio at y cyllidebau ar gyfer rhaglen Ysgolion y Dyfodol a gymeradwywyd, gan gynnwys yr ysgolion newydd yn Nhrefynwy a Chas-gwent ac nid yw'n cynnwys cyllidebau ar gyfer Ysgol Cas-gwent nac Ysgol y Brenin Harri'r VIII. Mewn ymateb, nodwyd, nes bod Llywodraeth Cymru'n datgelu'i gynigion mewn perthynas â Band B, nid yw'r Awdurdod yn gallu darparu unrhyw wybodaeth ynghylch datblygiad yr ysgolion hyn. Fodd bynnag, mae Cyngor Sir Fynwy wedi ymrwymo i'w strategaeth pedair ysgol mewn perthynas â'r Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif.

- Mewn ymateb i gwestiwn gan Aelod o'r Pwyllgor Dethol ynghylch y gost o ddarparu Ysgolion yr 21ain Ganrif, nodwyd bod adroddiad wedi'i gyflwyno i'r Cyngor a oedd wedi estyn swm y gwariant oedd yn ofynnol ar gyfer Ysgolion Trefynwy a Chas-gwent. Cynhwyswyd y cyllid hwn yn y Rhaglen Gyfalaf a gaiff ei chyllido, hanner gan yr Awdurdod a hanner gan Lywodraeth Cymru, Felly mae'r gyllideb ar gyfer y ddwy ysgol wedi'i gosod a'i hariannu. Mae cyfanswm y gost yn

dod i £49,000,000 ar gyfer Ysgol Trefynwy a £41,000,000 ar gyfer Ysgol Cil-y-coed. Parthed pwll nofio Trefynwy, roedd yn dal angen gwaith pellach a hyd yn hyn nid oedd ffigur diffiniol ar gyfer y cynnig hwn ar gael.

- Gwireddir y cyllid cyffredinol drwy gyfrwng benthyca rhannol, adnoddau rhannol Llywodraeth Cymru a derbynebau cyfalaf rhannol.

- Gallai'r Gyllideb ar gyfer Rheoli Ardal, swm o £20,000, gael ei lleihau ymhellach neu'i thorri yn wyneb pwysau eraill. Nodwyd bod adolygiad o Reoli Ardal yn digwydd. Felly, fe fu penderfyniad i adael y gyllideb o £20,000 yn ei lle am nawr tan i'r adolygiad gael ei gwblhau. Gwneir y penderfyniad hwn gan y Cyngor Llawn.

**Casgliad y Pwyllgor:**

Crynhodd y Cadeirydd fel a ganlyn:

- Diolchodd i'r swyddogion am gyflwyno'r adroddiad.

- Caiff y rhaglen gyfalaf bedair blynedd ei hadolygu a'i diweddaru'n flynyddol a bydd yn cael ei chraffu'n unigol gan bob un o'r pedwar pwyllgor dethol..

- Cyflwynir cynigion cyllideb cyfalaf terfynol i'r Cabinet a'r Cyngor yn Chwefror a Mawrth 2017.

5. **Drafft Gynigion Cyllideb 2017/18 er ymgynghoriad.**

**Cyd-destun:**

- Craffu ar y drafft gynigion ar yr arbedion yn y gyllideb sydd eu hangen i gwrdd â'r bwlch rhwng yr adnoddau sydd ar gael a'r angen i wario yn 2017/18, at ddibenion ymgynghori.

- Craffu ar gyllideb 2017/18 o fewn cyd-destun y Cynllun Ariannol Tymor Canolig (CATC) ac ystyried y blaenoriaethau i yrru ymlaen weithgareddau drwy Sir Fynwy'r Dyfodol.

**Materion Allweddol:**

Craffodd y Pwyllgor Dethol ar gynigion cyllideb y Gyfarwyddiaeth Plant a Phobl Ifanc, fel yr amlinellir yn Atodiad 3B yn yr adroddiad, a oedd yn cyfateb i arbediad o £245,461.

**Craffu Aelodau:**

- Ystyriwyd na chanfuwyd unrhyw bwysau arwyddocaol o fewn y Gyfarwyddiaeth Plant a Phobl Ifanc.

**CYNGOR SIR FYNWY**

**Cofnodion y cyfarfod o Bwyllgor Dethol Plant a Phobl Ifanc a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Neuadd y Sir, Yr Rhadyr, Brynbuga, NP15 1GA ar Dydd Iau, 12 Ionawr, 2017 am 2.00 pm**

- Nodwyd, flwyddyn yn ôl, y tybiwyd y byddai angen cynnydd o 4.95% yn y Dreth Gyngor. Fodd bynnag, roedd y swm wedi'i leihau i 3.95%. Nodwyd y byddai cynnydd yn y Dreth Gyngor i 4.5% yn cael gwared ar y diffyg yn y gyllideb o £243,000 ar gyfer y Cyngor llawn.

- Mewn ymateb i gwestiwn gan Aelod o'r Pwyllgor Dethol ynghylch her allanol ac annibynnol, fel yr amlinellir ym mharagraffau 3.8 a 3.9 o'r adroddiad, nodwyd y defnyddiwyd cwmni yr ymgysylltwyd ag ef drwy gyfrwng y gwaith a gyflawnwyd drwy Sir Fynwy'r Dyfodol a gynorthwyodd i amlinellu cynigion cyllideb 2017/18. O weithio gyda'n gilydd, cynhyrchwyd darn o waith a sicrhaodd nad oedd yr Awdurdod yn colli cyfleoedd yn y dyfodol. Bu'r broses o gymorth i adnabod y gwaith sy'n debygol o ddod i'n rhan yn y blynyddoedd i ddod.

- Mewn ymateb i gwestiwn gan Aelod o'r Pwyllgor Dethol ynghylch cyfeiriad at ostyngiad mewn gwariant ar ffioedd proffesiynol, nodwyd bod hyn yn cyfeirio at y costau cyfreithiol yn gysylltiedig â rhai o'r prosesau gaiff eu rhedeg yn fewnol. Mae swyddogion yn edrych at sicrhau bod gan staff y sgiliau priodol a gaiff eu darparu'n fewnol.

- Mewn ymateb i gwestiwn gan Aelod o'r Pwyllgor Dethol, dywedodd Pennaeth Cynorthwyol Cyllid y byddai'n darparu ar gyfer yr Aelod gopi diweddar o Reolaeth y Trysorlys, a gaiff ei gyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio bob chwe mis. Bydd y benthyciad net ar ddiwedd y flwyddyn oddeutu £88,000,000 sy'n gyfystyr ag amrywiaeth o fenthyciadau. Mae graddfa cydfenthyciad y Cyngor yn 4.5%. Fodd bynnag, bydd nifer o'r benthyciadau hyn yn hanesyddol eu natur a byddant yn adlewyrchu'r ffaith bod graddau llog yn y gorffennol yn uwch nag y maent nawr. Felly, mae'r raddfa gyfunol ar draws y Cyngor oddeutu 4.5%. Bob blwyddyn, mae'r Awdurdod yn talu nôl £3.4m mewn egwyddor a £2.9m o log allanol.

- Symud y gyllideb hyfforddiant - fe ystyriwyd y gellid defnyddio'r ffordd roedd y gyllideb hyfforddiant yn cael ei strwythuro yn y Gyfarwyddiaeth yn fwy effeithiol. Felly, mae'r gyllideb o £8000 wedi cael ei symud. Bydd cyllidebau timoedd o fewn y Gyfarwyddiaeth nawr yn cwrdd ag anghenion hyfforddiant staff.

- Gellir gwireddu arbedion pellach mewn Gwasanaethau Cynnal drwy ddwyn y gwasanaethau hyn at ei gilydd i greu arbedion.

- Arbedion Darpariaeth y Blynyddoedd Cynnar o £14,500 – Am gyfnod o amser roedd trefniant cyllido dwbl, h.y. derbynnid cyllid oddi wrth Lywodraeth Cymru drwy gyfrwng grant. Hefyd, roedd cyllid drwy gyfrwng cyllideb sylfaenol yr Awdurdod. Gwireddwyd yr arian hwn bellach a chyllidir y gwasanaeth hwn drwy gyfrwng y Grant o Lywodraeth Cymru.

- Y gostyngiad o £50,000 yng Nghyllideb Ysgolion Annibynnol Arbennig – Drwy gomisiynu llefydd yn fwy effeithiol yn y sector annibynnol ar gyfer plant Sir Fynwy ag Anghenion Dysgu Arbennig, bydd yr Awdurdod yn edrych ar leihau'r gyllideb hon.

**CYNGOR SIR FYNWY**

**Cofnodion y cyfarfod o Bwyllgor Dethol Plant a Phobl Ifanc a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Neuadd y Sir, Yr Rhadyr, Brynbuga, NP15 1GA ar Dydd Iau, 12 Ionawr, 2017 am 2.00 pm**

- Bu gostyngiad mewn niferoedd disgyblion gan arwain at arbediad o £81,000. Bydd yr Awdurdod bob amser yn gweithio i sicrhau bod gan bob ysgol y lefel briodol o gyllid a'r lefelau staffio priodol ar gyfer y nifer o blant sydd ganddi.

- Gostyngiad o £13,500 yn y cyfraniad sydd ei angen gan y Gwasanaeth Cyflawni Addysg (GCA). Daeth hyn i fod drwy drafodaethau gyda'r Bwrdd GCA. Cydnabu'r GCA y gallai leihau'i gostau rhedeg y gwasanaeth yn ganolog. Ni chaiff hyn effaith andwyol ar ysgolion, oherwydd os symuda ysgol i mewn i ddiffyg, bydd tîm ariannol yr Awdurdod yn darparu cymorth drwy weithredu'r cynlluniau adfer.

- Mewn ymateb i gwestiwn gan Aelod o'r Pwyllgor Dethol ynghylch ysgolion sy'n cynyddu'u niferoedd o ddisgyblion ar y gofrestr, nodwyd bod y swm o £81 000 yn ostyngiad yn y quantum sy'n mynd i mewn i'r fformiwla.

- Mae rhychwant y Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif yn dangos buddsoddiad sylweddol ac mae'r Awdurdod yn ymwybodol bod angen i'r rhaglen hon gael ei chyflawni ar amser ac o fewn y gyllideb. Gwelir y budd i'r plant parthed y buddsoddiad hwn maes o law.

- Cyllidwyd yr Awdurdod yn well na'r disgwyl y flwyddyn hon a hyd yn oed o fewn y setliad gwell hwn, ni allodd yr Awdurdod ond gwastatáu cyllid yn unig i ysgolion. Golyga hynny, pe bai gwaeth setliad y flwyddyn nesaf, mae'n ddyletswydd ar yr Awdurdod i gymryd yr arweinyddiaeth gydag ysgolion Sir Fynwy i sicrhau eu bod yn deall lle mae'u costau ac fel y gallent gael eu lleihau ar draws yr holl systemau ysgol i sicrhau eu bod yn gallu cyflawni'r lefel o addysgu a dysgu y mae'r Awdurdod yn ei disgwyl.

- Rhagwelir y bydd yn rhaid i'r Awdurdod ddod o hyd i wahanol ffyrdd o weithio mewn perthynas ag ysgolion a bod yn barod i weithio'n fwy cydweithredol yn y dyfodol.

- Cyfeiria ailstrwythuro Mounton House at y staff arlwyo sy'n cael eu cyflogi gan yr uned arlwyo ac nid yr ysgol. Cyfeiria'r mater hwn at y modd mae prydau'n cael eu darparu.

- Mewn ymateb i gwestiwn gan Aelod o'r Pwyllgor Dethol, nodwyd, dan y cynllun sicrhau rhagoriaeth, bod Adran y Gwasanaethau Plant yn edrych ar gyflawni strwythur staffio priodol, lleihau'r defnydd o staff asiantaeth, gwella cynigion gwasanaeth a lleihau'r ddibyniaeth ar lefydd allanol. Felly, dwyn Gwasanaethau Plant i weithredu o fewn ei gyfyngiadau.

- Mae'r holl gynigion arbed arian ar gyfer Gofal Cymdeithasol ac Iechyd yn cael eu canoli ar Wasanaethau Oedolion. Parthed Gwasanaethau Plant, bydd 2017/18 yn amser i atgyfnerthu a phwyso a mesur. Mae cyllidebau'n cael eu hailalinio yn unol â'r cynllun tair blynedd i sicrhau rhagoriaeth.

- Cydnabuwyd bod pwysau'n dwyn ansicrwydd ac mae'n wir dweud, ar draws yr Awdurdod, bod afiechyd ynghlwm wrth bwysau ar gynnydd. Mae'r sefyllfa bresennol yn heriol ar gyfer pob sefyllfa. Felly, mae'r Awdurdod yn gweithio gydag ysgolion mewn ffordd gadarnhaol a rhagweithiol i'w helpu i leihau'r effaith ar eu staff addysgu.

**CYNGOR SIR FYNWY**

**Cofnodion y cyfarfod o Bwyllgor Dethol Plant a Phobl Ifanc a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Neuadd y Sir, Yr Rhadyr, Brynbuga, NP15 1GA ar Dydd Iau, 12 Ionawr, 2017 am 2.00 pm**

**Casgliad y Pwyllgor:**

Crynhodd y Cadeirydd fel a ganlyn:

- Diolchodd i swyddogion am gyflwyno'r adroddiad.

- Dylid gwahodd yr holl Aelodau Cabinet i gyfarfod y Cydbwyllgor Dethol ar 31ain Ionawr 2017.

- Atodiadau ar faterion cysylltiedig i'w hatodi i'r adroddiad mewn perthynas â'r gyfarwyddiaeth benodol.

6. **Rhestr o gamau gweithredu sy'n codi o'r cyfarfod blaenorol.**

Derbyniasom a nodwyd gennym y rhestr o gamau gafodd eu cwblhau yn codi o gyfarfod Pwyllgor Dethol Plant a Phobl Ifanc a gynhaliwyd ar 8fed Rhagfyr 2016.

Wrth wneud hynny, nodwyd bod Nick Ramsay, AC, wedi mynychu cyfarfod fforwm o fewn y Gwasanaethau Plant  yn Nhachwedd 2016, lle trafodwyd y diffyg cyllid ym maes gwasanaethau plant. Dywedodd y Gweinidog Cyllid y bydd yn rhyddhau cofnodion y cyfarfod hwn maes o law.

7. **Cynllun Gwaith i'r Dyfodol y Pwyllgor Dethol Plant a Phobl Ifanc.**

Penderfynasom dderbyn Blaengynllun Gwaith Pwyllgor Dethol Plant a Phobl Ifanc. Wrth wneud hynny, nodwyd y pwyntiau canlynol:

- Cynhelir cyfarfod Cydbwyllgor Dethol o'r pedwar pwyllgor dethol ar 31ain Ionawr 2017 i graffu cynigion y gyllideb.

- Cynhelir cyfarfod arbennig o'r pedwar pwyllgor dethol ar 27ain Chwefror 2017 am 2.00pm i graffu'r Model Cyflawni Gwasanaeth Amgen.

- Cynhelir cyfarfod Cydbwyllgor Dethol y Pwyllgor Dethol Plant a Phobl Ifanc gyda'r Pwyllgor Dethol Oedolion ar y 6ed Chwefror 2017 am 10.00am i graffu'r Asesiad o Anghenion y Boblogaeth drafft ar gyfer Sir Fynwy.

- Cynhelir cyfarfod o Bwyllgor Dethol Plant a Phobl ifanc ar ddydd Iau, 16eg Chwefror 2017 am 2.00pm.  Ychwanegir yr adroddiadau canlynol i'r agenda ar gyfer y cyfarfod hwn:

    - Yr adroddiad perfformiad terfynol ar gyfer y flwyddyn ddiwethaf ynghylch ffigurau Cyfnod Allweddol 4 a 5.

    - Cynllun Busnes Gwasanaeth Cyflawni Addysg ar gyfer 2017/18.

**CYNGOR SIR FYNWY**

**Cofnodion y cyfarfod o Bwyllgor Dethol Plant a Phobl Ifanc a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Neuadd y Sir, Yr Rhadyr, Brynbuga, NP15 1GA ar Dydd Iau, 12 Ionawr, 2017 am 2.00 pm**

**8. Cyngor a Blaengynllun Busnes y Cabinet.**

Penderfynasom dderbyn Blaengynllun Gwaith Busnes y Cyngor a'r Cabinet gan nodi'i gynnwys.

**9. Cadarnhau dyddiad ac amser y cyfarfod nesaf.**

Cynhelir y cyfarfod cyffredin nesaf yn Siambr y Cyngor, Neuadd y Sir, Brynbuga, ar ddydd Iau, 16eg Chwefror 2017 am 2.00pm.

**Daeth y cyfarfod i ben am 15:16.**